amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Stori 1 Abram yn gadael ei gartref

DARLLENWCH
Genesis 12: 1-9

Mae'r stori yma'n sôn am:
Abram yn trystio Duw

Roedd Abram yn byw mewn dinas fawr. Un diwrnod, dywedodd Duw, "Abram, mae arna i eisiau i ti adael dy gartref a dy ffrindiau a symud i wlad arall. Byddaf i'n dangos y ffordd i ti."
Roedd Abram yn trystio Duw ac aeth ar y daith. Aeth ei wraig, Sarai, a'i nai, Lot, gydag ef.

Ysgrifennwch enwau'r bobl a aeth gydag Abram.

S _ _ _ _ a L _ _ .



Ar ôl taith hir iawn, siaradodd Duw ag Abram eto a dweud "Hon yw'r wlad rwy'n ei rhoi i ti a dy deulu".

Enw'r wlad oedd

Canaan.

Lliwiwch y llun ac enw'r wlad yr aeth Abram iddi.

Enw

DARLLENWCH
Genesis 13: 1-18

Mae'r stori yma'n sôn am:
Lot yn gwneud dewis hunanol

Stori 2 Abram a Lot

Roedd gan Abram a Lot lawer o ddefaid a nifer o weision i ofalu amdanynt. Un noson, roedd y gweision yn cweryla am nad oedd digon o borfa i fwydo'r holl ddefaid. Gwnaeth hyn Abram yn drist. Felly dywedodd y dylai Lot ag ef fyw mewn llefydd gwahanol.

Dywedodd Abram mai Lot fyddai'n cael dewis lle i fyw. Roedd Abram yn garedig. Ond doedd Lot ddim yn garedig. Roedd yn hunanol. Dewisodd y lle gorau. Ar ôl iddo fynd, dywedodd Duw wrth Abram y byddai'n rhoi'r tir I GYD iddo ef. Doedd Abram ddim yn hunanol ac fe roddodd Duw y pethau gorau iddo.

Rhowch linell o dan y gair sy'n dangos faint o'r tir y byddai Duw yn ei roi i Abram.

Ychydig **Y cyfan** **Dim**

Lliwiwch yr adnod a'r llun a rhoi ychydig o ddefaid yn y llun hefyd.

"Bydd Duw yn rhoi popeth y mae arnoch ei angen i chithau"

Philipiaid 4: 19

Enw

DARLLENWCH
Genesis 15: 1-7

Mae'r stori yma'n sôn am:
Credu addewidion Duw

Stori 3 Addewidion Duw

Roedd Abram yn drist am nad oedd ganddo blant. Byddai'n hoffi cael bachgen bach ac felly gofynnodd i Dduw roi mab iddo. Dywedodd Duw wrth Abram am fynd allan o'i babell yn y nos ac edrych i fyny i'r awyr a rhifo'r sêr. Ond roedd llawer gormod o sêr i Abram eu cyfrif! Yna addawodd Duw roi mab i Abram. Ac nid dyna'r cyfan!

Yn y dyfodol, byddai cymaint o bobl yn nheulu Abram ag sydd o sêr yn yr awyr. Credodd Abram eiriau Duw. Roedd yn gwybod y byddai ei addewid yn dod yn wir. Rhoddodd Duw enw newydd i Abram. Ei enw newydd oedd Abraham sy'n golygu 'tad i lawer o bobl'. Newidiodd enw Sarai hefyd, i Sara.

Beth oedd enw newydd Abram?

Lliwiwch yr adnod a'r llun a rhoi sêr yn y llun.

"Ni fethodd yr un gair o'i holl addewid ddaionus."

1 Brenhinoedd 8: 56

Enw

DARLLENWCH
Genesis 18: 1-15

Mae'r stori yma'n sôn am:
Addewidion Duw yn dod yn wir

Stori 4 Abraham a'r bobl ddierth

Un diwrnod poeth, pan oedd Abraham yn eistedd wrth ddrws ei babell, daeth tri dyn arbennig i'w weld. Duw oedd wedi'u hanfon o'r Nefoedd! Rhoddodd Abraham groeso iddynt. Dywedodd wrthynt am orffwys a gwnaeth ef a Sara bryd o fwyd arbennig iddynt.



Ar ôl bwyd, cafodd Abraham a Sara wybod y byddent yn cael babi cyn hir. Roedd Sara'n hen a dechreuodd chwerthin wrth feddwl am y peth.

Ond dywedodd yr Arglwydd:-

"A oes dim yn rhy anodd i'r ARGLWYDD" **Genesis 18: 14**

Lliwiwch yr adnod o'r Beibl a'r llun.

Yn wir i chi, cyn hir, cafodd y babi ei eni. Roedd addewid Duw wedi dod yn wir! Isaac oedd enw'r babi.

Ysgrifennwch enw'r babi yma. I _ _ _ _ .

Mae stori Abraham yn dangos i ni pa mor bwysig yw trystio Duw a bod yn ufudd iddo.

10

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 1 A5

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120